| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 Chwefror 2018** |
| **TEITL:** | **Ymgynghoriad Strategaeth Iaith Gwynedd** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br>**Swyddog Datblygu Iaith y Gweithle** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno fersiwn ymgynghgori Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 i'r Aelodau |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol arnom i ni lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal.

1.2 Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei gyrru gan y Cyngor, a bydd gofyn i holl adrannau'r Cyngor, yn ogystal â phartneriaid allanol gyfrannu tuag at weithredu ei hamcanion. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wneir yng nghyswllt yr iaith yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn a chynlluniau strategol eraill.

1.3 Mae strategaeth ddrafft wedi ei llunio ar sail ymgynghori gydag aelodau a dadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol yn y maes.

1.4 Bydd Proses Ymgynghori yn cael ei chynnal dros y 6 wythnos nesaf fydd yn cynnwys ymgynghori gyda Penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor, a phartneriaid allanol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr cymunedol.

**2. Camau nesaf**

Bydd y Strategaeth derfynol, ynghyd â Chynllun Gweithredu, fydd yn manylu ar ymrwymiadau gan adrannau mewnol a phartneriaid allanol i wireddu'r amcanion, yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ac yna i'r Cyngor Llawn yn yr Hydref.

**3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?**

3.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried y Cynllun Hybu, a chynnig sylwadau ar ei gynnwys.

3.2 Mae holiadur wedi ei gynnwys gyda'r Cynllun sydd yn cynnwys y cwestiynau ymgynghori, fel modd o hwyluso'r drafodaeth.

3.3 Mae croeso i unrhyw aelod gynnig sylwadau yn unigol hefyd, drwy lenwi'r holiadur a'i anfon at y Swyddog Datblygu ar y cyfeiriad canlynol: cydraddoldebaciaith@gwynedd.llyw.cymru